Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Llanhari

Llanhari
Pont-y-clun
Rhondda Cynon Taf
CF72 9XE

Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Llanhari

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Llanhari |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Ysgolion pob oed |
| Cymeriad crefyddol | * |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 647 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 532 |
| Nifer yn y chweched dosbarth | 67 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin | 21 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Ysgolion pob oed yw 20.2%) | 6.2% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Ysgolion pob oed yw 8.6%) | 2.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 60.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |

| | |
|---|---|
| Partner arweiniol ar gyfer Addysg gychwynnol athrawon | Ydy |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2022 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 23/10/2017 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 06/10/2025 |

Daw'r data hwn o ddata diweddaraf y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Efallai byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae Ysgol Llanhari yn gymuned ofalgar a chynhwysol sy'n hyrwyddo ymdeimlad cryf o berthyn. Mewn sesiynau dysgu, mae bron pob un athro yn meithrin perthynas waith gadarnhaol â disgyblion. O ganlyniad i'r gofal bugeiliol gwerthfawr, a'r ddarpariaeth iechyd a lles effeithiol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae eu hymddygiad yn hynod gwrtais a pharchus. Nodwedd gref yw parodrwydd disgyblion i gydweithio a thrafod gyda'u cyfoedion, gyda llawer ohonynt yn arddangos agweddau cadarnhaol iawn at ddysgu.

Mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ystod oedran yn gwneud y cynnydd disgwyliedig, gydag ychydig yn gwneud cynnydd cryf yn eu gwersi a dros amser. Mae disgyblion yn elwa o gyfleoedd gwerthfawr i ymarfer a datblygu eu medrau llythrennedd, yn arbennig eu medrau siarad a gwrando. Yn ogystal, mae cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau darllen ac ysgrifennu tra byddant yn yr ysgol. Fodd bynnag, er bod y cyfleoedd i ddatblygu medrau rhifedd a digidol disgyblion wedi'u cynllunio ar draws y cwricwlwm, nid yw'r ddarpariaeth wedi ei chydlynu'n ddigon strategol er mwyn sicrhau bod disgyblion yn datblygu'r medrau hyn yn gynyddol yn ystod eu hamser yn yr ysgol.

Mae staff yn darparu gweithgareddau dysgu a phrofiadau gwerthfawr sy'n cefnogi disgyblion i ymgartrefu'n gyflym a chyfrannu'n llawn i fywyd yr ysgol. Mae cydweithio buddiol ag ysgolion partner, er enghraifft wrth hyrwyddo statws ieithoedd rhyngwladol fel rhan o'r cwricwlwm. Yn ogystal, mae cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion gyfrannu at amrywiol bwyllgorau a chymryd rhan mewn ystod dda o weithgareddau allgyrsiol a theithiau.

Mae'r ysgol yn datblygu diwylliant o ddysgu proffesiynol yn llwyddiannus. Mae ffocws clir ar ddysgu ac addysgu yn cael effaith gadarnhaol ar yr hyn sy'n digwydd mewn gwersi. O ganlyniad, mae bron bob un athro yn sicrhau amgylchedd dysgu cefnogol ac yn meithrin perthynas waith gadarnhaol â disgyblion. Mae llawer o athrawon yn cynllunio gweithgareddau pwrpasol, yn cynnig adborth llafar adeiladol ac yn holi cyfuniad priodol o gwestiynau i wirio gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion.

Mae'r pennaeth a'r tîm arwain yn cydweithio'n agos ac yn rhannu eu gweledigaeth uchelgeisiol sydd wedi ei seilio'n gadarn ar werthoedd Cymuned, Cymreictod a Chynnydd. Er bod gan arweinwyr brosesau addas ar gyfer hunanwerthuso'r ddarpariaeth a chynllunio ar gyfer gwella, nid ydynt bob amser yn canolbwyntio digon ar effaith eu gwaith ar ddeilliannau disgyblion.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol barhau i wella:

A1. Cryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau rhifedd a digidol disgyblion yn gynyddol ar draws y cwricwlwm

A2. Miniogi'r prosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella er mwyn canolbwyntio'n fanylach ar y camau fydd yn dylanwadu fwyaf ar ddeilliannau disgyblion

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Addysgu a dysgu

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion Ysgol Llanhari yn ymddwyn yn hynod gwrtais a pharchus wrth gyfarch ei gilydd, eu hathrawon ac ymwelwyr i’r ysgol. Dangosa lawer ohonynt agweddau cadarnhaol tuag at eu dysgu gan wrando yn ofalus ar gyfarwyddiadau eu hathrawon a chanolbwyntio yn dda trwy gydol eu sesiynau dysgu. Nodwedd gref o’u hymagwedd at ddysgu yw eu parodrwydd i gyd-drafod â’u cyfoedion pan gânt y cyfle i wneud hynny. At ei gilydd, ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd sydd yn unol â’u gallu a’u hoedran, gan gynnwys y disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Gwna ychydig o ddisgyblion gynnydd cryf yn eu gwersi a dros amser.

Mae bron pob athro yn meithrin perthynas waith bositif â disgyblion, gan sicrhau amgylchedd dysgu cynhaliol a chefnogol. Mae ganddynt wybodaeth bynciol gadarn ac, yn y rhan fwyaf o sesiynau, defnyddiant eirfa a therminoleg yn bwrpasol er mwyn cefnogi datblygiad ieithyddol  disgyblion. Mae’r athrawon hyn yn llywio’r dysgu trwy gynnig cyfarwyddiadau clir fel bod disgyblion yn deall beth sydd angen ei wneud. Mae llawer o athrawon yn cynllunio bwriadau dysgu clir ac yn paratoi gweithgareddau sy’n adeiladu’n raddol i alluogi disgyblion i wneud y cynnydd disgwyliedig. Maent yn defnyddio gweithgareddau cychwynnol pwrpasol ac adnoddau effeithiol i gynnal diddordeb disgyblion. Mae’r athrawon hyn yn sicrhau bod lefel yr her yn briodol ac yn ymateb yn hyblyg i anghenion disgyblion drwy addasu’r tasgau wrth i’r wers fynd yn ei blaen. Mae llawer o athrawon yn holi cyfuniad priodol o gwestiynau i wirio dealltwriaeth a chyfeirio’r dysgu. Maent yn cynnig adborth llafar adeiladol wrth fynd o gwmpas yr ardaloedd dysgu ac yn darparu cymorth wedi’i dargedu, lle bo angen. Yn ogystal, lle bo’n briodol, mae’r athrawon hyn yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddarllen a thrafod mewn parau a grwpiau, sy’n cyfrannu’n gadarnhaol at ddatblygu eu medrau cyfathrebu.

Yn y lleiafrif o achosion lle mae’r addysgu ar ei gryfaf, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel o’r hyn y gall disgyblion ei gyflawni. Maent yn cynllunio gweithgareddau hynod effeithiol sy’n herio disgyblion yn fedrus. Mae’r athrawon hyn yn defnyddio strategaethau asesu yn grefftus i adnabod camsyniadau ac maent yn addasu cyflymder a lefel her y wers yn unol ag anghenion y disgyblion. Yn yr adran gynradd, mae athrawon yn annog disgyblion i chwarae rhan bwysig yn y broses gynllunio, gan feithrin ynddynt ymdeimlad o berchnogaeth dros eu dysgu.

Mewn ychydig o achosion, nid yw’r addysgu mor effeithiol, gan olygu nad yw disgyblion yn gwneud cymaint o gynnydd ag y gallent. Yn yr achosion hyn, nid yw disgwyliadau athrawon yn ddigon uchel ac maent yn tueddu i or-gyfarwyddo’r dysgu, gan gyfyngu ar gyfleoedd disgyblion i ddatblygu eu hannibyniaeth. Maent yn cyflwyno tasgau nad ydynt

yn ymateb yn llawn i’r ystod o alluoedd o fewn y dosbarth nac yn cynnig digon o her. Yn yr achosion hyn, mae cwestiynau’r athrawon yn bennaf yn gaeedig, ac o ganlyniad, nid oes cyfleoedd i ddisgyblion feddwl yn ddyfnach nac egluro eu hatebion yn llawn.

Yn gyffredinol, mae ansawdd sylwadau ysgrifenedig athrawon a’u heffaith ar gynnydd disgyblion yn anghyson ar draws yr ysgol. Lle caiff hyn ei wneud yn dda, mae sylwadau clir a defnyddiol  yn arwain at ddisgyblion yn ymateb yn briodol i wella ansawdd eu gwaith a defnyddir strategaethau buddiol i’w hannog i wneud gwelliannau manteisiol. Lle mae’r adborth yn llai effeithiol, nid yw’n tynnu sylw at wallau pwysig yng ngwaith y disgyblion ac nid yw’n arwain at welliant amlwg yn safon y gwaith.

### Medrau llythrennedd

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion ieuengaf yr ysgol yn caffael iaith a geirfa ac yn datblygu eu medrau gwrando a siarad yn llwyddiannus o oedran ifanc. Yn ystod eu cyfnod yn yr adran gynradd, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio’r Gymraeg yn naturiol yn eu gwersi ac wrth sgwrsio gyda staff ac ymwelwyr. O ganlyniad i strategaethau buddiol megis ‘Troi a thrafod’, mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn cyfrannu’n bwrpasol i waith pâr a grŵp mewn sesiynau ar draws y cwricwlwm. Yn yr adran uwchradd, mae llawer o ddisgyblion yn cynnig atebion priodol i gwestiynau eu hathrawon gan ddefnyddio geirfa bynciol yn wybodus. Mae lleiafrif y disgyblion yn gwneud cyfraniadau huawdl i drafodaethau dosbarth gan ddefnyddio ystod o eirfa soffistigedig a chystrawen ddatblygedig i fynegi eu safbwyntiau.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion ieuengaf yr ysgol yn datblygu eu medrau darllen yn addas. Mae llawer o ddisgyblion yn darllen gyda lefel dda o gywirdeb yn y Gymraeg a’r Saesneg erbyn diwedd Blwyddyn 6. Yn ogystal, maent yn dangos dealltwriaeth gadarn o’r hyn maent yn ei ddarllen, gan drafod eu hoff awduron. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yr adran gynradd a disgyblion yr adran uwchradd yn hyderus wrth ddod o hyd i wybodaeth mewn testunau a defnyddio eu medrau darllen sylfaenol yn llwyddiannus ar draws y cwricwlwm. Gall llawer o ddisgyblion oedran uwchradd adnabod nodweddion arddull a dyfyniadau defnyddiol yn synhwyrol wrth ymateb i destunau cynyddol gymhleth. Mae lleiafrif y disgyblion hyn yn esbonio'r effaith a gaiff nodweddion arddull ar y darllenydd yn effeithiol. O gael y cyfle, mae ychydig o’r disgyblion hŷn yn datblygu eu huwch fedrau darllen yn dda. Er enghraifft, wrth ddehongli a dadansoddi testunau yn eu gwersi Cymraeg ac wrth grynhoi a chyfuno gwybodaeth o amrywiol ffynonellau yn eu gwersi dyniaethau. Mae darpariaeth werthfawr i hyrwyddo diwylliant o ddarllen a datblygu medrau darllen cynnar disgyblion ar draws yr ysgol. Er enghraifft, ceir sesiynau dysgu ‘Dwlu ar Ddarllen’ i ddisgyblion yr adran gynradd ynghyd â chyfleoedd i rieni ymweld â’r ysgol i weld sut mae’r strategaeth hon yn cael ei defnyddio gyda’u plant.

Mae medrau ysgrifennu y rhan fwyaf o ddisgyblion ieuengaf yr ysgol yn datblygu'n dda. Cânt gyfleoedd gwerthfawr i greu siapiau llythrennau gan ddefnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau, cyn symud ymlaen at adnabod llythrennau cyfarwydd ac adeiladu geiriau syml trwy weithgareddau ymarferol buddiol. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn dechrau datblygu stamina ysgrifennu priodol mewn amrywiaeth o gyd-destunau a meysydd dysgu. Llwyddant i ysgrifennu llythyrau syml a straeon byr. Wrth gyrraedd blynyddoedd hŷn yr adran gynradd, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu yn llwyddiannus mewn ystod dda o ffurfiau gwahanol yn y ddwy iaith. Mae llawer yn gosod eu gwaith yn drefnus ac, o gael y cyfle, maent yn dechrau gwneud addasiadau syml i fireinio a gwella eu gwaith.

Yn yr adran uwchradd, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu darnau estynedig priodol yn y Gymraeg a Saesneg. Mae ychydig o ddisgyblion yn ysgrifennu yn afaelgar gan ddangos dealltwriaeth soffistigedig o sut mae nodweddion iaith yn cael effaith ar y darllenydd. Maent yn defnyddio idiomau a chyffelybiaethau effeithiol, er enghraifft wrth ysgrifennu cofnod dyddiadur Mared, cymeriad o 'Yn y Gwaed', yn eu gwersi Cymraeg. Mewn ychydig o achosion, mae'r cyfleoedd i ddisgyblion hŷn yr ysgol ysgrifennu yn annibynnol yn cael eu llesteirio gan ddefnydd diangen o fframweithiau parod neu or-gyfarwyddo. Mae gan leiafrif gystrawen letchwith a gwna ychydig o ddisgyblion gamgymeriadau sillafu a gramadeg cyson er gwaethaf gwaith cywiro eu hathrawon. Ym mlynyddoedd hŷn yr adran gynradd ac yn yr uwchradd, nid yw llawysgrifen ychydig o ddisgyblion yn llifo ac mae eu gwaith cofnodi yn flêr.

## Medrau rhifedd

Mae gan lawer o ddisgyblion fedrau rhifedd sylfaenol cadarn ac maent yn cymhwyso'r pedair rheol rhif yn effeithiol ar draws y cwricwlwm. Maent yn trin data, llunio graffiau a chymryd mesuriadau yn briodol mewn sesiynau gwyddoniaeth a daearyddiaeth, ac yn datrys problemau amser ac arian ar y lefel berthnasol. Mae disgyblion hŷn yn defnyddio eu medrau rhifedd yn hyderus i ddatrys hafaliadau mewn cyd-destunau gwyddonol. Fodd bynnag, mae ychydig o ddisgyblion yn ei chael yn anodd trosglwyddo'u dealltwriaeth pan fyddant yn cyflawni tasgau perthnasol ar draws pynciau eraill ac nid ydynt yn gallu esbonio prosesau mathemategol yn ddigon cadarn. Er bod cyfleoedd i ddatblygu medrau rhifedd wedi'u mapio ar draws y cwricwlwm, nid yw'r ddarpariaeth wedi'i chydlynu'n strategol er mwyn datblygu'r medrau'n gynyddol dros amser.

## Medrau digidol

Yn gyffredinol, mae disgyblion oedran uwchradd yn defnyddio'u medrau digidol yn addas mewn ystod briodol o bynciau ar draws y cwricwlwm. Maent yn cofnodi a chyflwyno gwybodaeth mewn dulliau amrywiol ac yn defnyddio technoleg ddigidol i

greu cyfres o gyfarwyddiadau, graffiau a chyflwyniadau yn briodol. Mewn ychydig o achosion, maent yn datblygu dealltwriaeth dda o gysyniadau a phrosesau cyfrifiadurol, megis deallusrwydd artiffisial. Mae'r cyfleoedd i ddisgyblion oed cynradd gymhwyso eu medrau digidol ar draws y cwricwlwm yn gyfyngedig. Er bod y cyfleoedd wedi'u mapio ar draws y meysydd dysgu, nid yw'r ddarpariaeth wedi'i chydlynu'n strategol er mwyn datblygu eu medrau'n gynyddol dros amser.

## Chweched dosbarth

Mae disgyblion y chweched dosbarth yn arddangos agweddau cadarnhaol iawn tuag at eu gwaith a'u pynciau dewis. Gwnânt gyfraniadau aeddfed i drafodaethau dosbarth gan holi cwestiynau priodol i ddyfnhau eu dealltwriaeth. Yn ogystal, maent yn dyfalbarhau'n dda wrth ymgymryd â thasgau annibynnol. Mae'r disgyblion hynaf yn barod iawn eu cyfraniad i waith yr ysgol ac yn gweithredu'n fuddiol fel modelau rôl, er enghraifft wrth iddynt gefnogi disgyblion iau'r ysgol mewn sesiynau rhifedd.

## Cwricwlwm

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer gwireddu Cwricwlwm i Gymru, sydd wedi ei seilio ar ddatblygu disgyblion sy'n gwireddu eu potensial yn addysgol ac yn gymdeithasol. Mae'r ysgol yn cydweithio'n fuddiol ag ysgolion partner i gytuno ar ddisgwyliadau cyffredin ar gyfer y cwricwlwm. Nodwedd arbennig o'r cydweithio hwn yw'r cyfleoedd i ddysgu ieithoedd rhyngwladol.

### Ciplun: Hyrwyddo statws ieithoedd rhyngwladol yn y cwricwlwm

Mae'r ysgol wedi cynllunio cwricwlwm ieithoedd rhyngwladol cyson ar gyfer disgyblion yr ysgol ac ysgolion partner o Flwyddyn 5 ymlaen. Mae arbenigwr pwnc yn cynnal gwersi ieithoedd rhyngwladol wythnosol ar draws y clwstwr er mwyn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion ddod yn gyfarwydd â'r berthynas rhwng nifer o ieithoedd gan gynnwys Ffrangeg, Sbaeneg ac Eidaleg. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar agweddau disgyblion tuag at ieithoedd a'u parodrwydd i gyfrannu ar lafar mewn sesiynau.

Mae cyswllt buddiol ag ysgol yn Guadeloupe yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion oed uwchradd ddod i adnabod plant o ddiwylliant gwahanol, ac i ddefnyddio iaith ryngwladol mewn cyd-destun cymdeithasol. O ganlyniad i hyn oll, mae disgyblion yn meithrin agweddau cadarnhaol at amlieithrwydd. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ganran y disgyblion sy'n parhau i astudio ieithoedd rhyngwladol yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth.

Mae cwricwlwm yr ysgol yn cefnogi datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn effeithiol. Cryfder nodedig yw'r ddarpariaeth iechyd a lles gynhwysfawr sy'n cynnig profiadau priodol i ddisgyblion ddatblygu dealltwriaeth o nodweddion perthnasoedd iach, rhywioldeb ac amrywiaeth mewn modd sy'n addas i'w hoedran. Mae cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r ardal leol a Chymru trwy gyfleoedd i astudio themâu megis 'Chwalu Ffiniau' yn yr adran gynradd a'r anthem genedlaethol yn yr adran uwchradd. Yn ogystal, mae arweinwyr yn mapio a chynllunio cyfleoedd gwerthfawr i gyfoethogi'r cwricwlwm trwy amrywiaeth o deithiau. Er enghraifft, trefnir teithiau i'r adran gynradd i stiwdios y BBC a'r Ardd Fotaneg, taith Blwyddyn 7 i ganolfan ailgylchu Bryn Pica, a theithiau rhyngwladol i ddisgyblion hŷn.

Yn y gwersi iechyd a lles, mae disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ystyried a gwerthfawrogi amrywiaeth a datblygu dealltwriaeth o sut i wneud dewisiadau iach. Atgyfnerthir hyn ymhellach drwy fyfyrdodau boreol 'Munud i Feddwl Llais Llanhari'. Er enghraifft, mae disgyblion yn trafod yn aeddfed themâu megis manteision dewisiadau bwydydd llysieuol a fegan i'w hiechyd corfforol a meddwl. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd da o farn y disgyblion er mwyn dylunio sesiynau perthnasol sy'n ymateb i faterion cyfredol.

Mae'r ysgol yn cynnig ystod briodol o gyrsiau yng nghyfnod allweddol 4 gan gynnwys cwrs dysgu yn yr awyr agored a chymdeithaseg. Mae cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion fynychu sesiynau 'Blas ar y chweched' wrth ddewis eu llwybrau dysgu ôl-16. Mae darpariaeth cwricwlwm y chweched dosbarth yn briodol ac yn diwallu dymuniadau dysgu llawer o ddisgyblion, ond mae pynciau galwedigaethol yn brin.

## Lles, gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a hapus ble ceir ymdeimlad cryf o berthyn a balchder o fod yn rhan o 'Deulu Llanhari'. O'u cychwyn yn y dosbarth meithrin neu ym Mlwyddyn 7, mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd pwrpasol i ddatblygu a thyfu'n unigolion gwybodus ac aeddfed yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Darperir cyfleoedd buddiol trwy wersi penodol a gwasanaethau i ddisgyblion ddatblygu eu medrau cymdeithasol. Er enghraifft, rhoddir sylw i sut i fod yn ystyriol o deimladau eraill a dathlu amrywiaeth. Mae'r ysgol yn cynnal diwylliant addas o ddiogelu. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu hannog i barchu eraill a'u bod yn ddiogel yn yr ysgol.

Mae ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn y sesiynau dysgu ac yn ystod amseroedd egwyl a chinio yn dda iawn. Yn y dosbarthiadau blynyddoedd cynnar, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn adeiladu perthnasoedd cadarnhaol â'r oedolion sy'n gofalu amdanynt a gyda'u ffrindiau. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn yn arddangos aeddfedrwydd cynyddol trwy eu parodrwydd i gyd-drafod a chydweithio â'u cyfoedion. Yn ogystal, trwy

amrywiol bwyllgorau llais y disgybl, mae medrau arwain y disgyblion yn datblygu’n gadarn ac yn dylanwadu’n llwyddiannus ar brofiadau eu cyd-ddisgyblion. Er enghraifft, mae arweinwyr ac aelodau’r cyngor ysgol wedi cyfarfod â swyddogion tîm arlwyo'r awdurdod lleol er mwyn dylanwadu ar gynnwys bwydlen yr ysgol. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion oed cynradd a llawer o ddisgyblion oed uwchradd yn teimlo bod arweinwyr a staff yn gwrando arnynt ac yn ymateb yn gadarnhaol i’w syniadau.

Ar draws yr ysgol, mae arweinwyr, athrawon a staff cymorth yn cydweithio’n agos er mwyn darparu gofal bugeiliol o safon uchel. Mae gan staff adnabyddiaeth dda iawn o’r disgyblion a cheir trefniadau cryf i gefnogi eu hanghenion. Mae’r ysgol yn darparu amrediad cyfoethog o ymyraethau i unigolion a grwpiau o ddisgyblion er mwyn sicrhau eu bod yn datblygu hyder a chael boddhad trwy eu profiad ysgol. Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn ar gyfer sicrhau bod disgyblion bregus yn derbyn cefnogaeth briodol er mwyn cynnal eu lles. Mae canolfannau 'Yr Hafan', 'Yr Hwb' a’r 'Nyth' yn darparu cefnogaeth effeithiol i ddisgyblion bregus ddatblygu eu medrau, yn ogystal â chynnal eu datblygiad emosiynol yn llwyddiannus.

Mae gan arweinwyr brosesau trylwyr i gefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Ceir systemau bwriadus i adnabod anghenion disgyblion yn fuan a threfnir ystod o ymyraethau a chefnogaeth bwrpasol i gefnogi’r disgyblion hyn. Mae’r cydweithio parhaus ag amrywiaeth o asiantaethau allanol, gan gynnwys yr awdurdod lleol, yn gryfder, gan gynnwys hwyluso boreau coffi i godi ymwybyddiaeth rhieni o’r gwasanaethau cefnogol sydd ar gael. Mae arweinwyr yn darparu hyfforddiant pwrpasol a chanllawiau penodol i staff er mwyn cefnogi anghenion y disgyblion. O ganlyniad i’r ddarpariaeth gynhwysfawr hon, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion ag ADY yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau personol.

Mae arweinwyr yn monitro presenoldeb disgyblion yn ofalus ac yn codi ymwybyddiaeth disgyblion a theuluoedd o bwysigrwydd mynychu’r ysgol yn gyson. Mae’r ysgol yn adnabod a thargedu presenoldeb unigolion a grwpiau o ddisgyblion yn synhwyrol. Mae strategaethau megis darpariaeth ‘Y Nyth’, i wella presenoldeb grwpiau penodol o ddisgyblion, yn dechrau cael effaith gadarnhaol. O ganlyniad, mae presenoldeb yr ysgol, gan gynnwys presenoldeb disgyblion sy’n gymwys am brydau ysgol am ddim yn cymharu’n dda ag ysgolion tebyg, er mae’n parhau i fod ychydig islaw’r lefelau cyn y pandemig.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol i sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu’n gyflym wrth ymuno â’r ysgol yn y dosbarth meithrin neu Flwyddyn 7. Mae hyn yn cynnwys trefniadau pontio cadarn gyda’r ysgolion cynradd partner. Yn ogystal, mae staff yr adran uwchradd yn cynnig cyfleoedd priodol i ddisgyblion feddwl am y camau nesaf yn eu bywydau addysgol, er enghraifft trwy gyfleoedd profiad gwaith i ddisgyblion Blwyddyn 10.

Mae'r amrywiaeth eang o weithgareddau allgyrsiol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gymdeithasu a chyfrannu at fywyd yr ysgol. Mae disgyblion yn mwynhau mynychu clybiau megis y clwb garddio, drama a sesiynau corawl ble mae cyfle i gyd-ganu er mwynhad.

## Arwain a gwella

Mae'r pennaeth yn arweinydd angerddol a synhwyrol sy'n ymgymryd â'i chyfrifoldebau yn frwdfrydig. Yn yr amser cymharol fyr ers ei phenodiad, mae wedi cryfhau'r ymdeimlad o 'Deulu Ysgol Llanhari' a pharhau i ddatblygu arweinyddiaeth ar gyfer ysgol bob oed. Mae gan y pennaeth weledigaeth glir sydd wedi ei seilio'n gadarn ar werthoedd 'Cymuned, Cymreictod, a Chynnydd'. Mae'n cyfathrebu'r weledigaeth hon ynghyd â'i disgwyliadau yn huawdl a chyson gyda chymuned yr ysgol. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at naws Gymreig a theuluol amlwg yr ysgol.

Mae cyfrifoldebau uwch arweinwyr wedi eu dyrannu'n synhwyrol ac, yn gyffredinol, maent yn cyd-fynd â'u harbenigedd personol. Maent yn gweithio'n agos fel tîm arwain ac yn dylanwadu'n gynyddol ar yr holl ystod oedran. Mae arweinwyr canol yn gweithio'n agos gyda'r tîm arwain gan elwa o gyfarfodydd rheolaidd a chefnogaeth werthfawr. Mae'r trefniadau rheolaeth llinell yn eglur a chytûn. Mae'r cyfarfodydd rheolaeth llinell yn darparu cyfleoedd buddiol i drafod materion addas gan gynnwys deilliannau disgyblion, y ddarpariaeth a chynnydd yn erbyn cynlluniau gwella. Mae gan yr ysgol systemau priodol ar gyfer rheoli perfformiad staff. Mae amcanion staff yn berthnasol ac yn cysylltu'n briodol â blaenoriaethau'r ysgol a dyheadau personol.

Mae gan yr ysgol ystod gynhwysfawr o weithgareddau hunanwerthuso. Mae arweinwyr ar bob lefel yn cyfrannu'n weithgar at brosesau sicrhau ansawdd fel craffu ar waith, arsylwi ar y cyd a defnyddio data yn bwrpasol. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella, yn enwedig wrth ystyried y ddarpariaeth lles ac agweddau o'r addysgu. Er hyn, nid yw arweinwyr bob tro yn canolbwyntio digon ar ddeilliannau disgyblion wrth werthuso. At ei gilydd, maent yn pennu blaenoriaethau gwella synhwyrol. Fodd bynnag, nid yw'r camau gweithredu na'r meini prawf llwyddiant bob tro yn ddigon miniog er mwyn sicrhau bod staff yn glir ynghylch beth yw eu cyfrifoldeb er mwyn gwireddu'r blaenoriaethau strategol yn llwyddiannus. Mae arweinwyr wedi mynd i'r afael yn addas â llawer o'r argymhellion o'r arolygiad diwethaf.

Mae arweinwyr yn ymateb yn briodol i nifer o flaenoriaethau cenedlaethol fel lliniaru effaith tlodi ar gyflawniad disgyblion a chyflwyno Cwricwlwm i Gymru. Maent yn angerddol dros sicrhau mynediad cyfartal i brofiadau cwricwlaidd ar gyfer disgyblion o aelwydydd incwm isel. Er enghraifft, maent yn sicrhau bod yr holl disgyblion yn cael mynediad at weithgareddau cyfoethogi fel gwersi offerynnol ac ymweliadau addysgol. Mae arweinwyr yn rhannu gwybodaeth gyda rhieni yn briodol.

Mae’r llywodraethwyr yn gefnogol ac yn cynnig her briodol i’r arweinwyr. Maent yn ymweld â’r ysgol yn rheolaidd ac yn cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau hunanwerthuso. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth glir o gryfderau’r ysgol a’i meysydd i’w datblygu. Mae’r pennaeth a rheolwr busnes, ar y cyd â’r llywodraethwyr, yn rheoli adnoddau’n ofalus, gan gynnwys adnabod ffynonellau ariannu amgen, fel grantiau allanol. Maent yn gwerthuso’r gwariant hwn yn addas. Yn ogystal, maent yn cydweithio’n effeithiol â swyddogion yr awdurdod lleol, lle bo’n briodol, er enghraifft i lunio cynllun adfer cytûn i fynd i’r afael â’r diffyg yn y gyllideb.

Mae’r ysgol yn datblygu diwylliant o ddysgu proffesiynol yn llwyddiannus. Mae arlwy eang o gyfleoedd dysgu proffesiynol sy’n cysylltu’n berthnasol â blaenoriaethau ysgol gyfan. Mae’r rhaglen wedi ffocysu’n briodol ar ddysgu ac addysgu ac mae’n dechrau cael effaith ar yr hyn sy’n digwydd mewn gwersi, er enghraifft y modd mae athrawon yn rhyngweithio â disgyblion a datblygu eu medrau siarad.

Mae’r ysgol yn bartner arweiniol mewn partneriaeth addysg gychwynnol athrawon. Mae staff wedi elwa o’r cyfle i gydweithio ag ysgolion eraill ac mae’r mentoriaid yn cael cyfleoedd buddiol i ddatblygu’n broffesiynol a mentora hyfforddeion. Mae arweinwyr yn gweithio’n fwriadus gydag ysgolion eraill, er enghraifft i ddarparu cwricwlwm ieithoedd rhyngwladol ar gyfer ysgolion y clwstwr.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli’r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Er bod yr ysgol mewn diffyg ariannol, mae arweinwyr a llywodraethwyr â dealltwriaeth briodol o'u sefyllfa gyllidol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 08/12/2025